# LLINELLAU

FEL CYDNABYDDIAETH DDIOLCHUS I

# T. JOSEPH, YSW.,

*Ar gyflwyniad anrheg iddo, gan Weithwyr Ysguborwen, ar ei ymadawiad a hwynt; a'r gymdogaeth yn gyffredinol.*

**Ton---"Merch Megen."**

Mor hyfryd i'w gweled hoff garwyr Llenyddiaeth,
Mewn cwlwm gwladgarawl yn trigo ynghyd;
Yn cydorfoleddu o unol deimladau,
Er dangos gwir haeddbarch yn gyhoedd i gyd;
Mae hyn o gynnulliad yn arwydd arbenig,
O deilwng gyflwynaw wir amheg o barch,
I Joseph ein yswain, ar ei ymadawiad
Gan rhydd ewyllyswyr, hyderus hyd arch.
Mai ol ei weithredoedd yn goron hygaraf,
O'i bell gyrhaeddiadau, fel Meistr ei waith,
Ar Gweithwyr a'i parchant, pa rhaid well tystiolaeth,
A'i fwyn anrhydeddu, heb beri un graith.

Gwr hael ei rinweddau, gwir frawd mewn cyfyngder,
A noddwr 'r amddifaid, a'r rheidus yn rhad;
Ceir amledd o dystion yn brawf o'i haelioni,
At bob achos teilwng, mewn eglwys a gwlad;
A mynych adgofir am Joseph urddasol,
Fel anwyl gymydog, Boneddwr heb ble,

Ar ei ymadawiad o'i ol fe alerir,
  Pa le ceir olynydd a leinw ei le.
B'le bynag el etto boed iddo fawr lwyddiant,
  A heddwch diffuant, a mwyniant tra maith,
A phob rhyw ddedwyddwch i'w ddilyn hyd elawr,
  A nofio gwlad nefawl 'nol diwedd ei daith.

## HYFRYDWCH CARADOG.

Hyfrydwch Caradog y cerddor mwyn cu,
I'w hoffi gwir heddwch llonyddwch pob llu ;
Enwogi cerddoriaeth wych helaeth ei chlod,
I'w ymgais Caradog yn fywiog am fod.

Hyfrydwch Caradog yn serchog y sydd,
I'w canw 'n wastadol, a buddiol y bydd ;

W.39.41 (P)

Ymlynu fel cerddor a'i gynghor yn gall,
I ochel camsynied a gwylied rhag gwall.

Cawr ydyw Caradog llwyr enwog lle'r â,
B'le ceir ei rhagorach a dewrach ŵr da ;
E'i bennaf hyfrydwch os credwch y gân,
I'w canu o'i galon a'i fynwes a'r dân.

*Aberdar.* EIDDIL GLAN CYNON.

W. MORRIS, ARGRAFFWR, LLYTHYR-DY, ABERDAR.

X20519907X

John Jones

i

T. Joseph. Ysw

Picture 2' 5" × 1' 8"

2 do – 18" × 13½"